

**Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
 Dydd Mercher, 5 Chwefror 2014
 Siambr y Cyngor, Yr Hen Goleg, Prifysgol Aberystwyth**

Yn bresennol:

- Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Yr Athro Siwan Davies, Dr Dylan Foster Evans, Dr Carwyn Jones, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Yr Athro Densil Morgan, Delyth Murphy, Dr Eleri Pryse
- Aelodau (Sefydliad): Dr Gwenno Ffrancon, Dr Anwen Jones, Dr Lisa Lewis, Dr Gina Morgan, Dr Angharad Naylor, Andrew Parry, Dr Siân Wyn Siencyn
- Aelodau (Myfyrwyr): Jacob Ellis (sylwedydd)
- Aelodau (Colegau Cymru): Linda Wyn
- Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Ysgrifennydd y Bwrdd), Nia Brown (Swyddog Datblygu)
- Ymddiheuriadau: Julie Brake, Hollie Edwards, Greta Fflur Jâms, Gwilym Dyfri Jones, Huw Morris (ex-officio), Yr Athro Gwynedd Parry, Siân Beynon Powell, Llinos Roberts, Gwerfyl Roberts, Dr Gwennan Schiavone, Carys Swain, Cara Llwyd Thomas, Yr Athro Deri Tomos, Dr Enlli Thomas

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon. 1.2. Croesawyd Dr Gwenno Ffrancon yn ôl ar ôl bod ar gyfnod mamolaeth, Andrew Parry (ar ran Julie Brake), Linda Wyn (cynrychiolydd addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach) a Jacob Ellis (Swyddog Iaith UCMC) i'w cyfarfod cyntaf. 1.3. Nodwyd llongyfarchiadau i'r Athro Elin Haf Gruffydd Jones ar dderbyn Cadair Bersonol.		
2. Ymddiheuriadau a	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
datganiadau o ddiddordeb	<p>2.2. Nodwyd gofid ynghylch absenoldeb y cynrychiolwyr myfyrwyr a chytunwyd y dylai'r Deon ohebu â hwy i bwysleisio pwysigrwydd eu mewnbwn i'r Bwrdd Academaidd. Cafwyd trafodaeth ynghylch cynorthwyo a darparu mentor i'r myfyrwyr a nodwyd bod y myfyrwyr wedi derbyn hyfforddiant gan y Coleg yn yr hydref. Nodwyd ymhellach y byddai etholiadau myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2014/15 yn digwydd yn fuan.</p> <p>2.3. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.</p>	Deon i ohebu â'r myfyrwyr	Mawrth 2014
3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2013	<p>3.1. Adroddwyd bod angen cywiro'r cofnod ar gyfer eitemau 3.3 a 9.8.</p> <p>3.2. Yn dilyn cywiro'r cofnodion cytunwyd i'w derbyn.</p>	Swyddog Datblygu i ddiwygio'r cofnod	Mawrth 2014
4. Aelodaeth	<p>4.1. Cafwyd adroddiad llafar ar gynrychiolaeth myfyrwyr ar y Bwrdd Academaidd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2013/14. Nodwyd yr enwebwyd y canlynol ers y cyfarfod diwethaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynrychiolydd y De-orllewin – Lewys Aron (Prifysgol Abertawe) • Cynrychiolydd y Gogledd a'r Gorllewin – Elidyr Glyn (Prifysgol Bangor) <p>4.2. Adroddwyd fod Linda Wyn o Grŵp Llandrillo Menai wedi ei phenodi i gynrychioli addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach.</p> <p>4.3. Cynigiwyd enwebu a chadarnhawyd enwau Heledd Bebb (Prifysgol De Morgannwg) a Dr Myfanwy Davies (Prifysgol Bangor) fel aelodau newydd o'r Bwrdd Academaidd tan 2017.</p> <p>4.4. Adroddwyd mai Dr Siân Wyn Siencyn a Jacob Ellis fyddai'n cynrychioli Aelodaeth Staff ac Aelodaeth Myfyrwyr y Coleg yng nghyfarfod y Llys 18 Chwefror 2014.</p>	Swyddogion i estyn gwahoddiad	Mawrth 2014

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<p>5. Cyflwyniad gan Brifysgol Aberystwyth</p>	<p>5.1. Cafwyd cyflwyniad gan Dr Anwen Jones, ar 'Prifysgol Aberystwyth a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol'. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad diddorol a oedd yn arddangos traddodiad cymunedol Aberystwyth a statws y Gangen o fewn y sefydliad. Cafwyd trafodaeth fer a nodwyd yr angen i drafod strwythur pob cangen o fewn ei sefydliad. Atodir y cyflwyniad pwynt pŵer i'r cofnodion.</p> <p>5.2. Yn sgil y drafodaeth argymhellwyd y dylai'r Bwrdd Cyfarwyddwyr dderbyn cyflwyniad gan bob cangen yn eu cyfarfodydd.</p>	<p>Trafod strwythur y canghennau o fewn y brifysgol</p> <p>Argymell i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr eu bod yn derbyn cyflwyniad gan sefydliad sy'n lletya'r cyfarfod</p>	<p>Mawrth 2014</p> <p>19 Chwefror 2014</p>
<p>6. Cynlluniau pynciol</p>	<p>6.1. Cyflwynwyd crynodeb o'r diweddariad a gylchredwyd mewn perthynas â'r cynlluniau pynciol sydd eisoes wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd Academaidd. Nodwyd dealltwriaeth y Bwrdd Academaidd bod rhywfaint o oedi o ran cwblhau cynlluniau'r Gymraeg, Diwydiannau Creadigol ac Addysg yn sgil absenoldeb Dr Gwennan Schiavone. Nodwyd mai'r broses ar ôl cymeradwyo cynllun fyddai trefnu cyfieithiad a'i osod ar wefan y Coleg. Cyfrifoldeb y paneli pwnc yw adolygu'r cynlluniau'n flynyddol cyn ail-gyflwyno i'r Bwrdd Academaidd bob tair blynedd.</p> <p>6.2. Cyflwynwyd y cynlluniau Nyrsio a Gwaith Cymdeithasol ac wedi trafodaeth derbyniwyd y cynlluniau ar wahân i fan ddiwygiadau (Adroddiad Statws 1).</p> <p>6.3. Cyflwynwyd y cynlluniau newydd ym meysydd Meddygaeth ac Astudiaethau Iechyd a chafwyd trafodaeth ar flaenoriaethu a gosod targedau ystyrlon. Pwysleisiwyd yr angen i fynd i'r afael â phwysigrwydd y niferoedd mewn meysydd gyda niferoedd bach a sicrwydd swyddi ar ôl astudio. Derbyniwyd y cynlluniau mewn egwyddor gan nodi'r angen i wirio data mewn rhai manau (Adroddiad Statws 2).</p> <p>6.4. Yn deillio o'r drafodaeth cytunwyd i ofyn i Fwrdd</p>	<p>Diweddaru'r ddogfen cynlluniau pynciol a'i chyflwyno i'r cyfarfod nesaf</p> <p>Ar ôl cymeradwyo cynllun, trefnu cyfieithiad a gosod ar y wefan</p> <p>Paneli pwnc i adolygu cynlluniau</p> <p>Ail-gyflwyno cynllun i'r Bwrdd Academaidd</p> <p>Deon i argymell i'r Bwrdd</p>	<p>7 Mai 2014</p> <p>Ar ôl cyfarfod</p> <p>Yn flynyddol</p> <p>Bob 3 blynedd</p> <p>19 Chwefror</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Cyfarwyddwyd y Coleg argymhell wrth y prifysgolion unigol y dylai myfyrwyr Cymraeg eu hiaith gael eu cofrestru, yn y man cyntaf, ar gyrsiau a modiwlau cyfrwng Cymraeg, ac y dylid eu cynnwys mewn grwpiau seminar cyfrwng Cymraeg. Byddai rhyddid wedyn i'r myfyrwyr nad oedd yn dymuno astudio yn y Gymraeg i newid cyfrwng wedi cyrraedd y brifysgol. Cytunwyd y byddai'r Deon yn cyflwyno'r argymhelliad hwn i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 19 Chwefror 2014.</p>	Cyfarwyddwyr	2014
<p>7. Targedau cynlluniau pynciol</p>	<p>7.1. Cafwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd ar y targedau a osodwyd i'r sector addysg uwch o ran cynyddu niferoedd myfyrwyr sydd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, ar gyfer y cyfnod hyd at flwyddyn academiaidd 2015/16.</p> <p>7.2. Nodwyd fod 4,440 o fyfyrwyr yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2011/12 gyda'r mwyafrif yn astudio ym meysydd Addysg, Ieithoedd (Cymraeg yn bennaf), Nyrsio a Diwydiannau Creadigol.</p> <p>7.3. Addysg yw'r maes â bron hanner o fyfyrwyr yn 2011/12 gydag 817 yn dilyn cwrs Astudiaethau Addysg, 583 yn hyfforddi fel athrawon (HCA) a dros draean - 826 - yn fyfyrwyr AUR sef sesiynau blasu i flwyddyn 12 a 13 a drefnir gan Brifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant. Mae'r niferoedd sydd yn astudio o fewn maes HCA yn cael eu dylanwadu'n drwm gan benderfyniadau polisi nad oes gan y Coleg unrhyw ddylanwad arnynt. Yn yr un modd y mae niferoedd y myfyrwyr a gofrestrir ar y Cynllun AUR yn dibynnu ar benderfyniadau Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant o ran ddyfodol y cynllun.</p> <p>7.4. Ym maes Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd mae bron pob myfyriwr yn astudio yn rhannol yn Gymraeg. Mae tua hanner y niferoedd yn fyfyrwyr israddedig rhan amser, ac felly'n 'farchnad' gyfnewidiol. O ganlyniad, nodwyd ei bod</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>yn anodd adnabod cyfleoedd twf penodol yn Addysg a'r Gymraeg ac y gallai fod cwmp mewn niferoedd.</p> <p>7.5. Eglurwyd er mwyn cyrraedd y targed cenedlaethol rhaid sicrhau cynnydd o 1,000 o fyfyrwyr erbyn 2015/16. O hepgor y meysydd a nodwyd uchod, ac o ystyried y ffigyrau sydd wedi eu cynnwys yn y cynlluniau pwnc a gytunwyd neu sydd ar ffurf drafft, adroddwyd bod y targedau presennol 300 yn brin o'r cyfanswm sydd angen ei gyrraedd er mwyn cyflawni targed Llywodraeth Cymru.</p> <p>7.6. Yn y drafodaeth a ddilynodd y cyflwyniad, rhybuddiwyd aelodau'r Bwrdd gan y swyddogion bod y targedau, o ganlyniad, yn parhau'n heriol iawn. Adroddwyd y byddai cyflwyniad tebyg yn cael ei ddarparu i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg ar 19 Chwefror 2014.</p> <p>7.7. Nododd yr aelodau nifer fawr o bwyntiau penodol a fyddai'n cael eu hystyried gan y swyddogion.</p> <p>7.8. Nododd y Prif Weithredwr fod deuparth o gyllideb y Coleg yn cael ei neilltuo ar gyfer y cynllun staffio a darlithwyr. Mae hyn yn fuddsoddiad sylweddol. Nododd ymhellach fod y swyddogion yn cyfarfod â'r sefydliadau i drafod ar lefel strategol ar sut i gynnal y buddsoddiad ar ôl pum mlynedd.</p> <p>7.9. Cytunwyd i gyflwyno diweddariad ar y sefyllfa yng nghyfarfodydd y Bwrdd Academaidd o hyn ymlaen.</p>	Cofrestrydd i ail-gyflwyno targedau	Mai 2014
<p>8. Pwyllgor Cydweithio Academaidd</p>	<p>8.1. Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ar drafodaeth y Pwyllgor Cydweithio Academaidd, a gyfarfu ar 22 Ionawr 2014. Adroddwyd bod trafodaeth yn parhau ar holl fater darpariaeth gydweithredol o dan nawdd y Coleg a'r angen i'r Coleg gael sicrwydd fod y trefniadau yn gyson â gofynion yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA).</p> <p>8.2. Cyflwynwyd, er gwybodaeth, enghraifft o gytundeb</p>	Cyflwyno cytundeb	7 Mai 2014

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>fframwaith posibl rhwng y sefydliadau mewn perthynas â darpariaeth gydweithredol a ddarparwyd gan Dr Natalie Roberts, Prifysgol Aberystwyth. Rhagwelir y bydd cytundeb terfynol, ar y materion hyn, yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cydweithio Academaidd ar 30 Ebrill 2014.</p> <p>8.3. Nodwyd cofnodion 2 Hydref 2013, er gwybodaeth.</p>	fframwaith i'r Bwrdd Academaidd	
9. Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon	<p>9.1. Darparwyd copi o adroddiad ar Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a gyflwynwyd gan y Coleg i Lywodraeth Cymru, drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.</p> <p>9.2. Gwahoddwyd y Bwrdd Academaidd i nodi'r adroddiad ac ymateb y Llywodraeth.</p>		
10. Adolygiadau Strategol	<p>10.1. Gwahoddwyd yr aelodau i nodi adroddiadau llafar Dr Dylan Phillips ar yr adolygiadau, fel a ganlyn:</p> <p>10.2. <u>Prosiect Cyfieithiadau a Phrosiect Digideiddio</u>: Adroddwyd bod adolygiadau wedi digwydd, yn unol ag amodau'r grant, wedi blwyddyn gyntaf y ddau brosiect a bod argymhelliad i'w hystyngiadau am gyfnod pellach.</p> <p>10.3. <u>Prosiect Edward Llwyd</u>: Adroddwyd y byddai Prosiect Edward Llwyd yn dod i ben yn ei ffurf bresennol. Argymhellwyd y byddai prosiect newydd yn cael ei sefydlu a swydd y Swyddog Prosiect presennol yn cael ei hail-ddynodi yn 'Swyddog Pwnc y Gwyddorau'. Cydnabuwyd gwaith y Swyddog Prosiect, Ffion Hughes, yn y maes.</p> <p>10.4 Adroddwyd bod swyddogion y Coleg wedi gweithredu'r argymhellion a bod cofnod llawn o'r adolygiadau ar gael.</p>		
11. Cynllun Staffio Academaidd a'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil	<p>11.1. Derbyniwyd diweddariad llafar gan Dr Dylan Phillips ar Gynllun Staffio Academaidd a Chynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg.</p> <p>11.2. <u>Cynllun Staffio</u>: Cynhaliwyd dyfarniadau'r Cynllun Staffio fis Rhagfyr 2013. Argymhellwyd dyfarnu 20 swydd ac fe'u</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>cymeradwywyd gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr. Nodwyd fod y swyddi mewn ystod eang o bynciau a meysydd gan gynnwys Nyrsio, Bydwreigiaeth, Gwaith Cymdeithasol, Seicoleg, Chwaraeon a Busnes. Nodwyd fod y broses penodi yn yr arfaeth er mwyn dechrau dysgu yn nhymor yr hydref 2014.</p> <p>11.3. <u>Ysgoloriaethau Ymchwil</u>: Adroddwyd y bu dyddiad cau am geisiadau ar gyfer yr Ysgoloriaethau Ymchwil fis Ionawr 2014. Derbyniwyd 24 cais a chanmolwyd y safon. Argymhellir i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 19 Chwefror 2014 i ddyfarnu 10 ysgoloriaeth. Nodwyd fod mwy o unigolion wedi ymgeisio eleni na llynedd a bod y nifer o geisiadau am ddyfarniad heb ymgeisydd wedi lleihau.</p> <p>11.4. Cytunwyd y byddai'r swyddogion yn darparu diweddariad ar y Cynllun Staffio Academaidd a'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil i'r Bwrdd Academaidd nesaf.</p>	Eitem agenda nesaf	7 Mai 2014
<p>12. Prosiectau peilot: addysg bellach</p>	<p>12.1 Cafwyd diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr ar brosiectau peilot wedi eu cyllido gan y Coleg mewn sefydliadau addysg bellach gyda chydweithrediad Colegau Cymru. Adroddwyd bod y Coleg yn ariannu pum prosiect i godi ymwybyddiaeth o addysg uwch, fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llandrillo Menai a Cambria i gyfarfod • Sir Gâr – Busnes • Pen-y-bont – Gofal Plant a meysydd cysylltiedig • Grŵp de-ddwyrain – darlithwyr y Coleg yn cynnal cwrs deuddydd <p>12.2 Yn deillio o'r drafodaeth argymhellwyd y gellid defnyddio enghraifft lwyddiannus gradd sylfaen ym maes Gofal Plant yng Ngholeg Pen-y-bont (trwy Brifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant) wedi'i gyllido gan y Coleg fel cyhoeddusrwydd.</p>	Awgrymu i'r Rheolwr Cyfathrebu	Mawrth 2014

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<p>13. Cydlynnydd Wicipedia</p>	<p>13.1. Cyflwynodd y Deon diweddariad llafar ar swydd y Cydlynnydd Wicipedia a dderbyniwyd gan Reolwr Gwasanaethau Gwybodaeth y Coleg.</p> <p>13.2. Nodwyd yn dilyn penderfyniad y Bwrdd Academaidd i ystyried ffyrdd o rannu deunyddiau'r Coleg ar lwyfannau agored, e.e. Wicipedia, ar sail trwyddedau agored priodol, cytunwyd telerau rhwng y Coleg a Wikimedia DU i gyd-gyllido swydd am gyfnod o chwe mis o fewn y Coleg. Hysbysebwyd swydd 'Cydlynnydd Wicipedia' fis Ionawr 2014, gyda'r bwriad o gynnal cyfweiliadau ar 20 Chwefror 2014.</p> <p>13.3. Prif swyddogaeth y cydlynnydd fydd asesu cynnwys addysgol y Coleg a chynghori sut y gellir ei rannu ar lwyfannau Wikimedia. Byddant yn ysgrifennu adroddiad dichonoldeb ar gynnwys a grëwyd gan y Coleg, neu sydd yn eiddo i'r Coleg e.e. papurau academaidd, cyfrolau, clipiau fideo a'u categoreiddio yn ôl eu haddasrwydd i'w rhannu yn seiliedig ar y cynnwys a'r statws hawlfraint. Byddant hefyd yn gyfrifol am adrodd ar ganfyddiadau a chynnydd i Fwrdd Academaidd y Coleg, Wikimedia DU ac, os yn berthnasol, mewn cynadleddau academaidd a/neu'r wasg.</p> <p>13.4. Croesawyd y penodiad ac edrychwyd ymlaen at adroddiad cynnydd maes o law.</p>		
<p>14. Cyrsiau ehangu mynediad cyfrwng Cymraeg (BA/14/01/13)</p>	<p>14.1. Cyflwynwyd papur gan Delyth Murphy ar gryfhau cyrsiau ehangu mynediad cyfrwng Cymraeg a diolchwyd iddi.</p> <p>14.2. Cafwyd trafodaeth ar bwysigrwydd y maes a sut orau i weithredu gan gynnwys dysgu o bell, cyrsiau mynediad addysg bellach ac awgrymwyd a allai'r Bwrdd Cyfarwyddwyr benderfynu a allai'r Coleg arallgyfeirio adnoddau.</p> <p>14.3. Cytunwyd y byddai'r Coleg, mewn ymgynghoriad â Delyth</p>	<p>Bwrdd Cyfarwyddwyr i drafod</p> <p>DM a IM i drafod camau</p>	<p>Haf 2014</p> <p>Gwanwyn 2014</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Murphy, yn sefydlu grŵp neu is-bwyllgor i arwain arolwg o'r hyn sydd eisoes yn bodoli a allai darparu adroddiad cynnydd i'r Bwrdd Academaidd.	nesaf Eitem agenda i'r Bwrdd Academaidd nesaf	7 Mai 2014 a parhaus
15. Materion i'w codi - Myfyrwyr	<p>15.1. Cyflwynwyd materion gan Jacob Ellis ar ran y myfyrwyr.</p> <p>15.2. Gofynnwyd a oedd safbwynt gan y Coleg ar fater cyffredinol llety Cymraeg ar gyfer myfyrwyr. Nododd y Prif Weithredwr fod y Coleg yn gefnogol i bob menter i hyrwyddo profiad y myfyriwr ac y dylai'r prifysgolion lle lleolir canghennau weithredu ar sail egwyddorion y Coleg. Eglurwyd y bu trafodaeth mewn cyfarfod eithriadol o Gangen Aberystwyth am fater dyfodol Neuadd Pantycelyn.</p> <p>15.3. Cyfeiriwyd at sylw yn y wasg ynghylch penderfyniad Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tydfil i gyflwyno toriadau yn y drafnidiaeth a gynigir i fyfyrwyr. Nodwyd bod Ysgol Gyfun Rhydywaun wedi cysylltu â'r Coleg ynghylch y mater a bod y Coleg wedi ysgrifennu at Brif Swyddog Addysg Merthyr yn pwysleisio cyfle-cyfartal mynediad addysg Gymraeg. Ni chafwyd unrhyw ymateb hyd yma.</p>		
16. Materion i'w codi - Canghennau	16.1. Cyfeiriodd Dr Gwenno Ffrancon at y toriadau sylweddol yng nghyllideb CILT Cymru a mynegwyd pryder cyffredinol am y sefyllfa.		
17. Materion yn codi	17.1. <u>Eitem 3.3 Cynllun Strategol</u> Cafwyd diweddariad ar y Cynllun Strategol gan y Prif Weithredwr. Adroddwyd y cyflwynir drafft o'r cynllun pum mlynedd i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 19 Chwefror 2014. Dosberthir drafft ar gyfer ymgynghoriad i aelodau'r Bwrdd Academaidd fis Mawrth 2014.	Cylchredeg drafft i'r aelodau	Mawrth 2014
18. UFA	18.1. Cafwyd adroddiad llafar ar y gwobrau a ddyfernir am y tro		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>cyntaf yn y Cynulliad eleni.</p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>Gwobr Norah Isaac</u>: Cyflwynir i Cerith Jones o Brifysgol Caerdydd am y canlyniad gorau yn y Dystysgrif Sgiliau Iaith. • <u>Gwobr Goffa Eilir Hedd Morgan</u>: Cyflwynir i Dr Huw Morgan, Prifysgol Aberystwyth. <p>18.2. Nodwyd mai'r Cymrodyr er Anrhydedd eleni yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dr Alison Allan a gyflwynir gan Andrew Green, aelod o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr • Cennard Davies a gyflwynir gan Dr Siân Wyn Siencyn, aelod o'r Bwrdd Academaidd • Yr Athro Elan Closs Stephens a gyflwynir gan yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, aelod o'r Bwrdd Academaidd • Dr Cen Williams, a gyflwynir gan yr Athro Jerry Hunter, aelod o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. 		
<p>19. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf</p>	<p>19.1. Nodwyd y dyddiadau canlynol ar gyfer blynyddoedd academaidd 2013/14 a 2014/15:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 7 Mai 2014, Prifysgol Caerdydd • 15 Hydref 2014, Prifysgol De Cymru • 4 Chwefror 2015, Caerfyrddin • 13 Mai 2015, Prifysgol Glyndŵr 		